

CYNLLUN RHEOLI GWASTRAFF

2025-2030

Sefydliad sy'n barod ar gyfer y dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i wreiddio ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac arfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

CYNNWYS

CYNNWYS	Error! Bookmark not defined.
1. Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
2. Alinio â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030	Error! Bookmark not defined.
Bookmark not defined.	
3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol	Error! Bookmark not defined.
4. Cwmpas.....	Error! Bookmark not defined.
5. Pwrpas.....	Error! Bookmark not defined.
6. Amcanion	Error! Bookmark not defined.
7. Rheoli wastraff.....	Error! Bookmark not defined.
7a Hierarchaeth Gwastraff	9
7b Economi Gylchol.....	9
7c Monitro Gwastraff	9
8. Cydymffurfio â Dyletswydd Gofal	10
9. Gofynion Trwyddedu	11
10. Trwyddedau Gwastraff	12
11. Trosglwyddo gwastraff i drydydd parti	13
12. Storio a gwaredu gwastraff.....	14
13. Monitro Gwastraff	Error! Bookmark not defined.
14. Gwastraff Contractwyr.....	Error! Bookmark not defined.
15. Rolau a Chyfrifoldebau.....	Error! Bookmark not defined.
16. Targedau CAMPUS	Error! Bookmark not defined.
17. Monitro ac Adrodd.....	Error! Bookmark not defined.
18. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill	Error! Bookmark not defined.
<i>Cymeradwyo</i>	Error! Bookmark not defined.

1. Cyflwyniad

Mae'r cynllun Rheoli Gwastraff hwn yn cyfathrebu ymrwymïadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i wella Rheoli Gwastraff ar draws ystâd y Brifysgol. Mae'n dangos ein hymrwymiad i welliant parhaus mewn arferion Rheoli Gwastraff, ac Effeithlonrwydd Adnoddau.

Mae'n dod o dan Flaenoriaeth Strategol 3 Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS, sef Ystâd Gynaliadwy. Mae mesurau o lwyddiant yn cynnwys gostyngiad yng nghyfanswm y gwastraff na ellir ei ailgylchu a chynnydd yng nghanran y gwastraff ailgylchadwy ar draws yr ystâd.



Cynhyrchir ystod amrywiol o wastraff o ganlyniad i'r ystod eang o weithgareddau ar bob un o gampysau'r Brifysgol, yn amrywio o wastraff cyffredinol, deunyddiau y gellir eu hailgylchu i wastraff arbenigol a reolir a gwastraff peryglus. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i sicrhau bod yr holl wastraff a gynhyrchir yn cael ei waredu'n gyfrifol trwy gontactwyr gwastraff cymeradwy sydd wedi'u cofrestru gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Daeth *Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle* 2024 Llywodraeth Cymru i rym yn Ebrill 2024, gan gael effaith sylweddol ar wahanu gwastraff ar draws campysau PCYDDS yng Nghymru. Roedd hyn wedi gofyn bod deunyddiau'n cael eu gwahanu ar gyfer eu casglu a chyflwynwyd y bygythiad o ddirwyon am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Bydd rheoliadau ailgylchu tebyg yn berthnasol i'r Canolfannau Dysgu yn Lloegr o Ebrill 2025.

Mae cynllun rheoli gwastraff PCYDDS yn cefnogi ymrwymiad y brifysgol i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn y meysydd canlynol:



2. Alinio â Strategaeth Gynaliadwy Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030

Mae'r Cynllun Rheoli Gwastraff hwn yn ddogfen gyflawni allweddol sy'n cefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030, gan drosi ymrwymïadau strategol y Brifysgol yn gamau gweithredu wedi'u targedu er mwyn gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau effeithiau amgylcheddol yn ymwneud â gwastraff.

Mae cynhyrchu gwastraff a defnyddio adnoddau'n cyfrannu'n sylweddol at ôl troed amgylcheddol y Brifysgol, yn enwedig mewn perthynas ag allyriadau Cwmpas 3. Felly, mae rheoli gwastraff yn effeithiol, wedi'i ategu gan egwyddorion hierarchaeth a'r economi gylchol, yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau cynaliadwyedd a sero net PCYDDS.

Mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni pileri craidd y Strategaeth:

EIN POBL: Trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth, a newid ymddygiadol, mae'r Cynllun hwn yn grymuso staff a myfyrwyr i gymryd cyfrifoldeb dros leihau gwastraff, ailddefnyddio, ac ailgylchu, gan ymgorffori diwylliant o gynaliadwyedd ar draws cymuned y Brifysgol.

EIN PWRPAS: Trwy wella arferion rheoli gwastraff, cynyddu cyfraddau ailgylchu, a chefnogi'r newid i economi gylchol, mae'r Cynllun hwn yn atgyfnerthu ymrwymiad y Brifysgol i gyfrifoldeb amgylcheddol a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau.

EIN LLE: Trwy wella'r broses o wahanu gwastraff, lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a gwella effeithlonrwydd adnoddau ar draws yr ystâd, mae'r Cynllun hwn yn cyfrannu at gampysau glanach, mwy cynaliadwy ac yn cefnogi canlyniadau amgylcheddol ehangach o fewn y cymunedau y mae PCYDDS yn gweithredu ynddynt.

Mae'r Cynllun Rheoli Gwastraff hwn wedi'i alinio'n agos â'r Cynllun Rheoli Carbon Net Sero a chynlluniau rheoli cynaliadwyedd ehangach, gan ffurfio rhan o fframwaith integredig i gyflawni amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol.

3. Adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol

Mae Cynllun Rheoli Gwastraff 2025-2030 yn adeiladu ar lwyddiannau cynllun 2022-2025 gan gynnwys:

- 🌱 Gosod 624 o finiau i ddidoli gwastraff ac annog ailgylchu gan gynnwys ychwanegu biniau gwastraff bwyd a chasglu gwastraff mewn ymateb i *Reoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023*.
- 🌱 Gwelodd y brifysgol welliant yn ei chyfraddau ailgylchu dros gyfnod y cynllun rheoli blaenorol:
 - 🌱 59% wedi'i ailgylchu yn 21/22
 - 🌱 65% wedi'i ailgylchu yn 22/23
 - 🌱 69.7% wedi'i ailgylchu yn 23/24
- 🌱 Mae'r brifysgol wedi cyflwyno sesiwn hyfforddi ar-lein Gwastraff ar gyfer staff a myfyrwyr ar y ddeddfwriaeth ailgylchu yng Nghymru.
- 🌱 Yn nhabl cynghair *People and Planet 2024/25*, PCYDDS oedd yn gyntaf yng Nghymru ac yn 5ed yn y DU yn y categori 'gwastraff ac ailgylchu'. Parhaodd y llwyddiant hwn yng nghynghair 2025/26 gyda PCYDDS yn gydradd 9fed yn y DU ac yn parhau i fod yn 1af yng Nghymru.



4. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol a holl randdeiliaid eraill y brifysgol fel cynhyrchwyr gwastraff sydd â chyfrifoldeb i waredu gwastraff yn y modd cywir.

5. Pwrpas

Am ei bod yn cynhyrchu gwastraff mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol sicrhau bod yr holl wastraff a gynhyrchir yn cael ei waredu'n unol â rheoliadau a'r ddyletswydd gofal o dan Ddeddfwriaeth Amgylcheddol.

Bydd y Brifysgol yn cymhwyso egwyddorion yr 'Hierarchaeth Gwastraff' er mwyn atal, lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill unrhyw wastraff a gynhyrchir o ganlyniad i'w gweithgareddau yn lle gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi wrth sicrhau ei bod yn bodloni gofynion cyfreithiol ac yn rheoli gwastraff yn gyfrifol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei strategaeth yn y ddogfen [Tu Hwnt i Ailgylchu](#) er mwyn gwneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru. Fel sefydliad sydd wedi'i ymrwymo i Gymru, bydd PCYDDS yn defnyddio'r egwyddorion hyn yn ei phrosesau Rheoli Gwastraff hefyd.

Mae buddion eraill i reoli gwastraff yn weithredol, yn cynnwys;

-  Cydymffurfiaeth gyfreithiol
-  Lleihau'r effaith amgylcheddol
-  Sgoriau tablau cynghrair gwell
-  Cefnogaeth wrth leihau allyriadau cwmpas 3
-  Arbedion ariannol

6. Nodau


Caiff gwastraff ei reoli'n unol â'r amcanion canlynol;

-  Sicrhau bod yr holl wastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth gwastraff berthnasol, gan gynnwys gofynion dyletswydd gofal, wrth gynllunio ar gyfer newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol ac i liniaru eu heffeithiau.
-  Cyflawni gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn ym maes rheoli gwastraff, ac arferion effeithlonrwydd adnoddau gan weithio tuag at ddargyfeirio 95% o'r holl wastraff o safleoedd tirlenwi
-  Cyflawni cyfraddau ailgylchu neu ddargyfeirio o 70% o'r holl wastraff erbyn 24/25, 80% erbyn blynnyddoedd academiaidd 27/28.
-  Addysgu a hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol a phwysigrwydd rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau i staff a myfyrwyr er mwyn annog lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu yn unol â'r Cynllun Gweithredu Rheoli Gwastraff.
-  Sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin a'i storio'n ddiogel ar holl gampysau'r Brifysgol, gan hyrwyddo dulliau ac arferion rheoli gwastraff gorau'r diwydiant.
-  Sicrhau na fydd gwastraff yn cael ei anfon o gwbl i safleoedd tirlenwi lle mae defnydd amgen neu lwybr gwaredu arall yn bodoli.

7. Rheoli Gwastraff

7a Hierarchaeth Gwastraff

Mae'r Hierarchaeth Gwastraff yn darparu canllawiau ar reoli gwastraff, gan restru opsiynau yn unol â goblygiadau amgylcheddol, a ffafrio atal gwastraff dros bob opsiwn rheoli gwastraff arall. Mae'n rhoi'r brif flaenoriaeth i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan fydd gwastraff yn cael ei greu, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio, yna ei ailgylchu, yna ei adfer, ac yn olaf, ei waredu (e.e. safle tirlenwi).



7b Economi Gylchol

Mae economi gylchol yn cadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyn hired â phosibl ac yn osgoi pob gwastraff. Bydd hyn yn golygu symud i ffwrdd o 'economi llinol' sy'n cymryd cyflenwad cyson o adnoddau naturiol yn ganiataol neu'n mabwysiadu diwylliant 'cymryd-gwneud-defnyddio-gwaredu' sy'n seiliedig ar echdynnu adnoddau, cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau, a gwaredu gwastraff ôl-dddefnyddiwr. Mae symud i economi gylchol yn allweddol i gyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol – oherwydd gall lleihau ein hallyriadau carbon a'r ffordd rydym yn gor-ecsbloetio adnoddau naturiol yn sylweddol, a hefyd ein helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ond yn bwysicach oll, gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Yn economaidd, trwy gymryd dull cylchol sy'n cwtogi cadwyni cyflenwi, gall wella effeithlonrwydd, creu cyflogaeth a chynyddu cystadleuaeth.

7c Monitro Gwastraff

Mae angen monitro gwastraff yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod biniau wedi'u gosod yn y lleoliad cywir er mwyn osgoi cael gormod o finiau a chasgliadau gwastraff ar draws pob ffordd wastraff. Mae angen monitro hefyd ar gyfer rheoli halogiad gyda staff glanhau yn tynnu sylw at ardaloedd lle canfyddir halogiad. Bydd y tîm cynaliadwydd hefyd yn cynnal gwiriadau halogiad gwastraff fel rhan o'r ymrwymiad i welliant parhaus yn System Rheoli Amgylcheddol y Prifysgolion.

8. Cydymffurfio â Dyletswydd Gofal

Mae Adran 34(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn gosod 'Dyletswydd Gofal' ar unrhyw berson sy'n ymwneud â chynhyrchu, storio, cludo neu waredu gwastraff.

Gellir crynhoi'r rhwymedigaethau hyn fel a ganlyn;

-  Atal gwastraff rhag dianc o'u rheolaeth nhw neu unrhyw berson arall
-  Trosglwyddo gwastraff i berson awdurdodedig yn unig
-  Darparu disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff wrth ei drosglwyddo
-  Cwblhau nodyn trosglwyddo
-  Cadw cofnodion o drosglwyddo gwastraff

I grynhoi, Grŵp PCYDDS sy'n gyfrifol am yr holl ffrydiau gwastraff o'r pwynt cyntaf y cânt eu galw'n wastraff i'r pwynt triniaeth terfynol.

9. Gofynion Trwyddedu

Ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â; STORIO, DEFNYDDIO, TRIN neu WAREDU gwastraff ar dir y Brifysgol mae un o'r canlynol yn orfodol;

-  Trwydded Amgylcheddol gan y Rheoleiddiwr Amgylcheddol, a/neu:
-  cofrestru Eemptiad gyda'r Rheoleiddiwr Amgylcheddol, a/neu:
-  cydymffurfio â thelerau ac amodau eraill lle nad yw'r uchod yn ofynnol

Gan y gallai cyfaint y gwastraff peryglus a gynhyrchir gan PCYDDS fod yn fwy na'r trothwy Adnoddau Naturiol o 500kg, mae pob campws wedi'i gofrestru fel cynhyrchydd gwastraff peryglus. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhaid cofrestru bob blwyddyn.

Mae pob un o safleoedd y Brifysgol wedi'i gofrestru fel cynhyrchwr gwastraff a chynhyrchwr gwastraff peryglus.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â thrwyddedau ac eemptiau gwastraff, os ydych chi'n gyfrifol am storio, neu brosesu unrhyw wastraff sy'n barod i'w waredu, cysylltwch â waste@uwtsd.ac.uk

10. Trwyddedau Gwastraff

Mae safleoedd y Brifysgol hefyd wedi'u cofrestru fel Cludydd / Brocer / Deliwr Gwastraff Haen Is. Bydd y drwydded hon yn para am gyfnod amhenodol, oni bai ei bod yn cael ei dirymu neu ei thynnu'n ôl. Mae pob safle wedi'i gofrestru; mae hyn yn caniatáu i'r Brifysgol drosglwyddo ei gwastraff ei hun mewn cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol rhwng safleoedd. Os ydych chi'n cario gwastraff ar y briffordd gyhoeddus, rhaid i chi gario trwydded yn eich cerbyd. Gellir cael y rhain o waste@uwtsd.ac.uk

11. Trosglwyddo gwastraff i drydydd parti

Rhaid cofnodi pob symudiad gwastraff ar Nodyn Trosglwyddo Gwastraff a Nodyn Llwyth Gwastraff Peryglus (lle bo'n berthnasol). Ym mis Ebrill 2025 bydd Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff ar ffurf digidol. Mae'r adran hon o'r polisi i'w hadolygu yn unol â'r newid deddfwriaethol hwn unwaith y bydd ei weithredu wedi'i asesu. Mae rhagor o wybodaeth am y newid ar gael [yma](#).

Rhaid cadw pob Nodyn Trosglwyddo Gwastraff am DDWY flynedd, ac mae'n cynnwys y canlynol;

-  Disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff
-  Ein Cod SIC (85.42/1: Addysg Uwch)
-  Y Cod Gwastraff 6 digid (gweler rhestr CGA)
-  Nifer i'w waredu, a chyfeiriad y casgliad
-  Cadarnhad ein bod wedi cymhwyso'r Hierarchaeth Gwastraff

Rhaid cadw pob Nodyn Llwyth Gwastraff Peryglus am DAIR blynedd, ac mae'n cynnwys y canlynol;

-  Disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff
-  Ein Cod SIC (80.30/2: Addysg Uwch)
-  Y Cod Gwastraff 6 digid (gweler rhestr CGA)
-  Ein "Cod Safle" Gwastraff Peryglus
-  Nifer i'w waredu, a chyfeiriad y casgliad
-  [Part E: Consignee Certificate](#) – Rhaid ei chwblhau er mwyn i'r ddogfen gael ei archwilio
-  Cadarnhad ein bod wedi cymhwyso'r Hierarchaeth Gwastraff

NID yw anfoneb yn Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff nac yn Nodiadau Clwb Gwastraff Peryglus.

Enghraifft [Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff](#) Enghraifft Beryglus [Nodyn Llwyth Gwastraff](#)

Ar gyfer casgliadau contract safonol fel casgliadau wythnosol Gwastraff Cyffredinol ac Ailgylchu Cymysg Sych o'r un safle, gellir cael Nodyn Trosglwyddo Gwastraff Blyneddol. Mae hwn yn nodyn trosglwyddo sengl a all gwmpasu trosglwyddiadau lluosog dros gyfnod o hyd at 12 mis o bob safle Grŵp. Rhaid i'r Nodyn Trosglwyddo Gwastraff Blyneddol gynnwys;

-  y partïon sy'n ymwneud â'r trosglwyddiad
-  y disgrifiad o'r gwastraff sy'n cael ei drosglwyddo
-  y man lle mae'r gwastraff yn cael ei drosglwyddo o un person i'r llall
-  bydd cyfanswm pwysau'r gwastraff yn cael ei amcangyfrif dros y cyfnod sydd ar y nodyn trosglwyddo gwastraff (tocyn tymor) pan fo'n llai nag un flwyddyn. Pan fo'r cyfnod ar y safle yn fwy na blwyddyn, bydd nodyn trosglwyddo gwastraff blyneddol arall yn cael ei gynhyrchu. Os bydd unrhyw un o'r amodau hyn yn newid, bydd nodyn trosglwyddo gwastraff newydd yn cael ei gynhyrchu.

Rhaid anfon copi o'r HOLL Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff neu Nodiadau Llwyth Gwastraff Peryglus a dderbynnir at; waste@uwtsd.ac.uk

12. Storio a gwaredu gwastraff

Dylid cadw'r holl wastraff cyn ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei waredu mewn ardaloedd diogel, dynodedig. Rhaid i'r holl wastraff gael ei drin ymlaen llaw, ei wahanu, ei labelu'n glir a'i gadw mewn ardaloedd i atal dianc. Rhaid i gyfleusterau storio gwastraff fod;

-  Yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig
-  Yn gadarn
-  Wedi'u gorchuddio a'u cloi

Rhaid cludo gwastraff oddi ar y safle gan Gludwr Gwastraff Cofrestredig a'i waredu ar safle gwaredu gwastraff trwyddedig. Mae deunyddiau gwastraff peryglus i'w gwaredu yn unol â Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005.

Ni ddylid rhoi gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn yr un cynhwysydd.

13. Monitro gwastraff

Rhaid i bob safle fonitro ardaloedd storio gwastraff a sicrhau mai dim ond contractwyr trwyddedig sydd ar y safle yn casglu ac yn gwaredu gwastraff i gyrchfannau priodol.

Mae gwastraff a gynhyrchir ac sy'n cael ei waredu gan y Brifysgol yn cael ei fonitro gan y Tîm Cynaliadwyedd, gyda ffigurau yn cael eu hadrodd yn flynyddol yn y Datganiad Amgylcheddol yn unol â System Rheoli Amgylcheddol y Brifysgol. Bydd y Grŵp Rheoli EMS yn sicrhau adolygiad o'r cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn.

14. Gwastraff Contractwyr

Dim ond cwmnïau rheoli gwastraff dan gontract y gellir eu defnyddio i waredu gwastraff y Grŵp. Mae manylion am y contractwyr hyn, a'u holl drwyddedau perthnasol yn cael eu cadw gan; waste@uwtsd.ac.uk

15. Rolau a chyfrifoldebau

- Yr holl staff sy'n gyfrifol am storio, trosglwyddo a gwaredu gwastraff; i sicrhau bod y weithdrefn hon yn cael ei dilyn
- Tîm Darparu Cynaliadwyedd PCYDDS; i fonitro gweithgareddau rheoli gwastraff a sicrhau cydymffurfiaeth

Ffynhonnell Gwastraff	Math o Wastraff	Swyddog(ion) Cyfrifol	Rhanddeiliaid Allweddol
Llety Myfyrwyr	Gwastraff na ellir ei ailgylchu, plastig a metelau y gellir eu hailgylchu, Papur a Chardfwrdd, Gwydr, Bwyd	Rheolwr Llety	Rheolwyr Campws, Myfyrwyr, Tîm Domestig, Tîm Gweithredol Safle, Tîm Tir
Allfeydd Arlwygo	Gwastraff na ellir ei ailgylchu, plastig a metelau y gellir eu hailgylchu, Papur a Chardbord, Gwydr, Bwyd, olew coginio	Rheolwr Arlwygo a Chynadledda	Rheolwyr Campws, Tîm Domestig, Tîm Gweithredol Safle, Cwsmeriaid
Gwastraff Adeiladu / Cynnal a Chadw adeiladau	Cyffredinol Cymysg Cyffredinol, Ailgylchu Cymysg Sych (DMR), Asbestos, Bwrdd Plastr, Paent, Tiwbiau Fflwroleuol	Rheolwr Prosiect	Prif gontractwr, is-gontractwr
Tiroedd a Thirlunio	Gwastraff Garddio	Rheolwr Tiroedd a Thirlunio	Tîm Tiroedd, Tîm Gweithredol y Safle
Tiroedd ac Adeiladau	Sbwriel cyffredinol a baw o Gŵn ac anifeiliaid ac adar eraill	Rheolwr Tiroedd a Thirwedd	Staff a myfyrwyr Gweithredwyr Safle, Tîm Tiroedd
Ar draws Campysau	Gwastraff Trydanol (WEEE)	Rheolwr Campws, Rheolwr Desg Gwasanaeth TG	Holl staff a myfyrwyr
Llety	Matresi	Rheolwr Campws	Myfyrwyr, Gweithredwyr Safle, Tîm Tiroedd, Llety
IQ/Alex	Clytiau Olewog	Technegwyr	Rheolwr Campws, Tîm Cynaliadwyedd
Alex / Dinefwr	Sylweddau Peryglus	Technegwyr	Rheolwr Campws, Tîm Cynaliadwyedd
Swyddfeydd Lloegr	Gwastraff Cyffredinol, Ailgylchu Cymysg Sych (DMR), Bwyd	Deiliaid	Tîm domestig
Swyddfeydd Cymru	Gwastraff na ellir ei ailgylchu, plastig a metelau y gellir eu hailgylchu, Papur a Chardfwrdd, Gwydr, Bwyd	Deiliaid	Tîm domestig
Biniau cymunedol Lloegr	Cymysg Cyffredinol, Ailgylchu Cymysg Sych, Gwydr, Bwyd	Rheolwyr Campws	Yr holl staff a myfyrwyr, Rheolwyr Campws, Tîm Domestig, Gweithredwyr Safle

Biniau cymunedol Cymru	Gwasttraff na ellir ei ailgylchu, plastig a metelau y gellir eu hailgylchu, Papur a Chardfwrdd, Gwydr, Bwyd	Rheolwyr Campws	Yr holl staff a myfyrwyr, Rheolwyr Campws, Tîm Domestig, Gweithredwyr Safle
---------------------------	--	--------------------	--

16. Targedau CAMPUS

Er mwyn rheoli'n rhagweithiol yr holl dargedau CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) ar gyfer Cynlluniau Rheoli sy'n gysylltiedig â Chynaliadwyedd, mae'r targedau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn yn cael eu cadw yn y ddogfen "Targedau CAMPUS Cynaliadwyedd PCYDDS".

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys person cyfrifol, rhanddeiliaid, mecanwaith adrodd a chamau gweithredu ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun hwn. Mae'r rhain wedi'u halinio â'r cynllun hwn a thargedau datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Maent yn cynrychioli cymysgedd o newidiadau seilwaith ymarferol, newidiadau ymddygiadol a strategaethau ymgysylltu i sicrhau dull systematig o leihau allyriadau carbon.

Gellir dod o hyd i'r targedau yma:

https://uowtsd.sharepoint.com/teams/Sustainability_7fuztl_GRP/Shared%20Documents/General/Policy%20&%20Strategy/Strategy%202025-2030/UWTSD SMART Targets.xlsx

17. Monitro ac Adrodd

Bydd monitro perfformiad carbon yn gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a sefydlwyd o dan 'Blaenoriaeth Strategol 6: Monitro ac Adrodd' Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS.

Bydd y goruchwyllo'n dilyn model sicrwydd tair llinell y Grŵp:

Goruchwyliaeth Weithredol

-  Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd
-  Cyfarwyddwr Ystadau
-  Grŵp Llywio Cynaliadwyedd (SSG)
-  Integreiddio i'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd
-  Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol blynyddol

Goruchwyliaeth Llywodraethu

-  Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
-  Cyngor y Brifysgol

Sicrwydd Allanol

-  System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 y Ddraig Werdd
-  Archwiliad allanol blynyddol

Bydd cynnydd yn cael ei:

-  Adrodd yn flynyddol trwy Adroddiad Cynaliadwyedd PCYDDS
-  Integreiddio i ddangosfyrddau Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol
-  Alinio â fframweithiau cydnabyddedig fel SBTi, lle y bo'n briodol

18. Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2030:

-  Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
-  Cynllun Rheoli Carbon 25-30
-  Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
-  Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Ynni 25-30
-  Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
-  Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
-  Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

Awdur(on) y polisi:

Dan Priddy

Teitl Swydd: Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Wedi'i gymeradwyo gan:

Peter Mannion

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

Dyddiad: 01/06/2026

Rheolydd Fersiwn y Ddogfen

Rhif Fersiwn:	Rheswm dros newid:	Awdur:	Dyddiad newid:

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i: AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David